Cyngor Sir CEREDIGION CEREDIGION County Council

# Ffurflen Gais am Dystysgrif Preswylio i fod yn Gymwys gyfer Tŷ Fforddiadwy (Gostyngiad ar gyfer Gwerthu: Cynllun Datblygu Unedol)

Defnyddiwch y ffurflen hon i'ch helpu chi a ninnau i gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol wrth wneud cais am dystysgrif preswylio ar gyfer Tŷ Fforddiadwy (Gostyngiad ar gyfer Gwerthu). Gallwch ddarparu'r wybodaeth pryd bynnag y bydd ar gael, nod oes angen ichi aros tan ichi gasglu'r wybodaeth i gyd. Fel hynny byddwn yn medru dechrau prosesu'ch cais cyn gynted â phosib, gan ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol fel y bo'r angen.

**Dylech sicrhau fod gennych y fersiwn iawn o'r ffurflen, gan fod yno un fersiwn ar gyfer eiddo wedi'i ostwng ar gyfer gwerthu a gymeradwywyd o dan y Cynllun Datblygu Unedol (y maen prawf preswylio yw bod wedi byw yng Ngheredigion am ddeng mlynedd yn ddi-dor yn yr ugain mlynedd diwethaf) ac un arall ar gyfer eiddo wedi'i ostwng ar gyfer gwerthu a gymeradwywyd o dan y Cynllun Datblygu Lleol (y maen prawf preswylio yw bod wedi byw yng Ngheredigion am bum mlynedd yn ddi-dor rywbryd yn eich bywyd, neu unrhyw ward Cyngor Tref/Cymuned sy'n ffinio â'r Sir).**

Ceir rhagor o ddewisiadau o ran tai fforddiadwy ar wefan www.ceredigionhousing.co.uk

| | **Adran 1** | |
|---|---|---|
| **1a** | **Ydych chi'n prynu'r eiddo ar y cyd?**<br>(hynny yw, a fydd enw rhywun arall yn ymddangos ar weithredoedd yr eiddo ar ôl ei brynu?)<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ | |
| **1b** | **Enw a Manylion Cyswllt cyfredol** | **Enw a Manylion Cyswllt cyfredol eich Partner** (os yw'n berthnasol) |
| | Enw:<br><br>Cyfeiriad:<br><br><br>Cod post:<br><br>Rhif ffôn:<br><br>Ffôn symudol:<br><br>e-bost: | Enw:<br><br>Cyfeiriad:<br><br><br>Cod post:<br><br>Rhif ffôn:<br><br>Ffôn symudol:<br><br>e-bost: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1b** | **Ydych chi'n prynu am y tro cyntaf?**<br><br>**Ydw/Ydyn** ☐ **Nac ydw/Nac ydyn** ☐ | | |
| **1c** | **A fydd yno blant ar yr aelwyd? Os felly, sawl un?**<br><br>**Bydd** ☐ **Nifer y Plant** ☐ **Na fydd** ☐<br><br>**Unrhyw ddibynyddion eraill?** | | |
| **1c** | **Ticiwch y grŵp oedran yr ydych chi'n perthyn iddo**<br><br>**16-24** ☐<br>**25-44** ☐<br>**45-64** ☐<br>**65-74** ☐<br>**75+** ☐ | **Ticiwch y grŵp oedran y mae'ch partner yn perthyn iddo** (os yw'n berthnasol)<br><br>**16-24** ☐<br>**25-44** ☐<br>**46-64** ☐<br>**65-74** ☐<br>**75+** ☐ | |
| | **Adran 2** | | |
| **2a** | **Cyfeiriad yr eiddo'r ydych chi'n gwneud cais am dystysgrif ar ei gyfer:** | | |
| **2b** | **Ai datblygwr sydd wedi adeiladu'r tŷ, ynteu chi eich hunan?**<br><br>**Datblygwr** ☐ **Fi fy hun/Ni'n hunain** ☐ | | |

| | | |
|---|---|---|
| 2c | **Ydych chi'n gwybod a yw'r gwerthwr a Chyngor Sir Ceredigion wedi cytuno ar werth llawn yr eiddo ar y farchnad?**<br>(os na fu cytundeb gallai hyn achosi oedi gyda'ch cais – mae'n rhaid i'r gwerthwr gysylltu â'r Cyngor Sir Ceredigion a chytuno ar werth yr eiddo neu'r eiddo arfaethedig ar y farchnad agored.)<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ | |
| | **Adran 3**<br>***Meini Prawf Ariannol – Rhan 1*** | |
| 3a1 | **Enw'r Darparwr Morgais:**<br><br>Nid oes angen ichi godi morgais, a gallwch newid eich darparwr morgais. | |
| 3a2 | **Ydych chi wedi amgáu Tystysgrif Morgais/Addewid/Penderfyniad mewn Egwyddor?**<br><br>Mae'n rhaid cael yr wybodaeth hon i fodloni'r meini prawf cymhwyso, hyd yn oed os mai gwerth y cynnig yw sero, neu os gwrthodwyd morgais ichi ar sail eich incwm/oedran ac yn y blaen. (efallai y bydd yr wybodaeth ar ffurf llythyr yn hytrach na thystysgrif/addewid/penderfyniad mewn egwyddor).<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐ | |
| 3a3 | **Ydych chi wedi amgáu llythyr/e-bost yn datgan Uchafswm y Morgais sydd ar gael i chi a'ch partner (fel y bo'n berthnasol), os nad yw'r swm dan sylw wedi'i nodi ar y Dystysgrif Morgais/Addewid/Penderfyniad mewn Egwyddor?**<br>Mae hyn yn ofynnol gan y gallai swm y morgais y gofynnoch chi amdano, sydd wedi'i nodi ar ffurf tystysgrif morgais/addewid, fod yn wahanol i uchafswm y morgais y gallwch ei gael.<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐ | |
| 3a4 | **Ydych chi wedi amgáu slipiau cyflog am y tri mis diwethaf i chi a'ch partner** (os yw'n berthnasol) **neu os ydych chi'n hunangyflogedig, cyfrifon y busnes am y tair blynedd diwethaf?**<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdanynt** ☐ | |

| | |
|---|---|
| 3a5 | **Ydych chi wedi amgáu'r P60 diwethaf i chi a'ch partner** (os yw'n berthnasol)**?** |
| | **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐ |
| | ***Meini Prawf Ariannol – Rhan 2***<br><br>**Os ydych chi a'ch partner (os yw'n berthnasol) yn hŷn na 65 ac yn methu â chael morgais oherwydd eich oedran a'r ffaith nad ydych chi'n gweithio mwyach.** |
| 3b1 | **Ydych chi wedi amgáu'r pethau canlynol: Manylion eich pensiwn am y tri mis diwethaf, datganiad pensiwn blynyddol, manylion unrhyw lwfansau ac unrhyw incwm arall?**<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdanynt** ☐ |
| | **Adran 3**<br>***Rhan 3*** |
| 3c | **Bydd yn rhaid i chi neu'ch partner** (os yw'n berthnasol) **fodloni UN o'r meini prawf canlynol.**<br><br>**Rhowch enw'r person y credwch sy'n bodloni'r maen prawf perthnasol:** |
| 3c1 | **Person Lleol** (hynny yw, eich bod wedi byw yng Ngheredigion am ddeng mlynedd yn ddi-dor unrhyw bryd yn yr ugain mlynedd diwethaf) ☐<br><br>**Os nad ydych chi'n bodloni'r maen prawf Person Lleol, ystyriwch un o'r rhai canlynol:** |
| 3c2 | **Gweithiwr Allweddol** (wedi'ch cyflogi neu'n mynd i gael eich cyflogi mewn swydd barhaol, llawn amser am 37 awr yr wythnos) ☐ |
| 3c3 | **Wedi symud i Geredigion am fod angen ichi ofalu am rywun neu dderbyn gofal gan rywun sy'n bodloni'r maen prawf Person Lleol** a bod cartref y perthynas agos hwnnw'n rhy fach neu'n anaddas (hyd yn oed o'i estyn hyd eithaf yr hyn a ganiateir o dan gyfraith cynllunio a statudau eraill) ar gyfer bodloni anghenion yr aelwyd sy'n cynnwys y prynwr a'r perthynas agos sy'n darparu/derbyn gofal. ☐ |

| | |
|---|---|
| 3c1i | **Os credwch eich bod chi neu'ch partner (os yw'n berthnasol) yn gymwys o dan y maen prawf Person Lleol (3c1) yna gallwch wirio hynny fel a ganlyn:**<br><br>**i) Gwybodaeth ar y Gofrestr Etholwyr.** Fe gewch chi'r wybodaeth drwy gysylltu â Gwasanaeth Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir Ceredigion (Ffôn: 01545 572035). Codir tâl am hyn.<br>**ii) Llythyr oddi wrth eich Meddyg.** Yn nodi pryd cofrestrwyd chi yn y feddygfa a'ch cyfeiriad/au ers ichi gofrestru.<br><br>**Os oeddech chi yn yr ysgol/coleg ar unrhyw adeg yn ystod y deng mlynedd dan sylw,** cysylltwch â'r ysgol/coleg a gofynnwch am lythyr yn datgan y cyfnod pan fuoch chi'n fyfyriwr a'ch cyfeiriad ar y pryd.<br><br>**Mae croeso ichi gysylltu â ni os cewch chi unrhyw drafferth yn cael gafael ar fanylion preswylio**<br><br>**Ydych chi wedi amgáu'r dystiolaeth?**<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐<br><br>**Manylion y dystiolaeth yr ydych wedi'i amgáu neu'n aros amdano:**<br><br>**Ewch yn syth i Adran 4** |
| 3c2i | **Os credwch eich bod chi neu'ch partner (os yw'n berthnasol) yn gymwys o dan y maen prawf Gweithiwr Allweddol (3c2):**<br><br>• **Mae gweithiwr allweddol yn rhywun sy'n cyflawni swyddogaeth bwysig o ran darparu gwasanaethau allweddol yng Ngheredigion.**<br>Athro mewn ysgol, sefydliad addysg bellach neu goleg chweched dosbarth; nyrs neu aelod arall o staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; swyddog yr Heddlu, swyddog y Gwasanaeth Prawf, seicolegydd addysg, therapydd galwedigaethol a gyflogir gan awdurdod lleol, un o weithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub, neu rywun arall y mae'r Cyngor yn ardystio ei fod yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran darparu gwasanaethau allweddol yng Ngheredigion.<br><br>**Ydych chi wedi amgáu'r dystiolaeth?**<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐ |

| | |
|---|---|
| | **Manylion y dystiolaeth yr ydych wedi'i amgáu neu'n aros amdano:**<br><br><br><br>**Ewch yn syth i Adran 4** |
| **3c3i** | **Os credwch eich bod chi neu'ch partner (os yw'n berthnasol) yn gymwys o dan y maen prawf 3c3:**<br><br>Bydd arnoch angen meddwl am yr wybodaeth sydd ar gael i gadarnhau i) hyd iv) isod.<br><br>**i)** pam fod angen gofal arnoch chi/eich perthynas agos;<br>**ii)** pam fod tŷ eich perthynas agos yn anaddas i bawb ohonoch fyw ynddo, a pham nad oes modd ei addasu neu'i ymestyn i ateb y diben;<br>**iii)** sut mae'ch perthynas agos yn cydymffurfio â rhan gyntaf y Rheol hon;<br>**iv)** sut ydych chi'n perthyn i'ch perthynas agos (brawd, chwaer, mab, merch, rhiant, taid, nain, nai, nith, gŵr neu wraig, gan gynnwys perthnasau rhiant-plentyn yn sgil mabwysiadu, a pherthnasau rhwng pobl sy'n byw fel petasent yn ŵr a gwraig, gan gynnwys cyplau o'r un rhyw);<br><br>O ran i) er enghraifft, mae'n debygol y bydd y person sydd angen gofal (chi neu'ch perthynas) yn cael cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Byddai llythyr gan un o'r rhain yn gallu helpu i ddangos fod angen gofal sylweddol arnoch chi/eich perthynas agos.<br><br>O ran ii), byddai llythyr oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol hefyd yn gallu helpu i esbonio pam fod cartref presennol eich perthynas yn anaddas a pham nad oes modd ei addasu na'i ymestyn.<br><br>**O ran iii), bydd arnoch angen ystyried sut allwch chi ddangos bod eich perthynas yn bodloni'r maen prawf Person Lleol (3b1).**<br><br>O ran iv), gan ddibynnu ar eich perthynas, byddai darparu copi o'ch Tystysgrif Geni ac un eich perthynas (er enghraifft, rhiant) yn dangos sut yr ydych chi'n perthyn.<br><br>**Ydych chi wedi amgáu'r dystiolaeth?**<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐<br><br>**Manylion y dystiolaeth yr ydych wedi'i amgáu neu'n aros amdano:** |

| | **Adran 4**<br>***Datganiad Statudol (Amgaeedig)*** |
|---|---|
| | Mae'r Datganiad Statudol yn cadarnhau ym mhresenoldeb cyfreithiwr neu gomisiynydd llwon y byddwch chi a'ch partner a'ch teulu (os yw'n berthnasol) ar ôl prynu eich tŷ fforddiadwy yn byw ynddo yn llawn amser, heb fod yn berchen ar unrhyw eiddo preswyl arall. Mae'n rhaid ichi gydymffurfio â'r rheol hon tra byddwch chi'n berchen ar y tŷ fforddiadwy, a bydd yn rhaid ichi gadarnhau'r ffaith ar ddiwedd bob blwyddyn.<br><br>Gall y cyfreithiwr/comisiynydd llwon godi tâl am y gwasanaeth hwn, ac felly efallai y byddai'n well ichi aros tan ichi gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol cyn sicrhau'r datganiad statudol. Mae'n rhaid i'r cyfreithiwr/comisiynydd llwon roi stamp yn dwyn ei enw a'i gyfeiriad ar y datganiad. |
| | **Ydych chi wedi amgáu'r Datganiad Statudol?**<br><br>**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ **Yn aros amdano** ☐ |

## Manylion Cyswllt:

Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Ffôn: 01545 572067
e-bost: ldp@ceredigion.gov.uk

## FFURFLEN DATGANIAD STATUDOL YNGHYLCH PRESWYLIAETH A PHERCHNOGAETH

Yr wyf i/ni,________________________________________________

o __________________________________________________

yn datgan o ddifrif ac yn ddiffuant fel a ganlyn:-

1. Yr wyf wedi gwneud cais i brynu'r eiddo o'r enw a'r lleoliad canlynol:

   ________________________________________________

   ________________________________________________

   yn Sir Ceredigion (a elwir "yr eiddo" yn y datganiad hwn). Mae'r eiddo wedi'i ddynodi yn annedd fforddiadwy yn unol â'r ymrwymiadau cynllunio a bennwyd ar gyfer yr eiddo o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Yr wyf i [ynghyd ag aelodau fy nheulu] yn bwriadu meddiannu'r eiddo fel prif breswylfa yn unol â'r cyfryw ymrwymiadau, ac rwy'n cadarnhau na fyddaf yn berchen ar unrhyw lety arall ar ôl ei brynu.

3. Rwy'n gwneud y datganiad hwn o ddifrif gan gredu yn gydwybodol ei fod yn wir ac yn unol â darpariaethau Deddf Datganiadau Statudol 1835.

Llofnod                                        Llofnod eich Partner (os yw'n berthnasol)

Gwnaethpwyd y DATGANIAD yn ____________________________

yn Sir ____________ ar hwn y ______ diwrnod o ____________ 20

ger fy mron i, ________________________ sydd yn Gyfreithiwr/Comisiynydd Llwon

Cyfeiriad/Manylion y Cwmni